**Arweiniad ynghylch Sancsiynau Dangosol**

## 1 Cyflwyniad

Diben yr arweiniad hwn yw cynorthwyo Cadeiryddion ac Aelodau Pwyllgorau Priodoldeb i Ymarfer wrth benderfynu a ddylid gosod gorchymyn disgyblu ('Gorchymyn') yn erbyn cofrestriad person cofrestredig ai peidio ac, os felly, pa orchymyn fyddai'n briodol.

**Atgoffir aelodau Pwyllgorau mai 'arweiniad yn unig' yw'r Arweiniad ynghylch Sancsiynau Dangosol ac nid ffynhonnell amgen o gyngor cyfreithiol. Bydd angen i aelodau Pwyllgorau ddefnyddio'u crebwyll eu hunain wrth benderfynu a fyddant yn gosod Gorchymyn ai peidio am y bydd pob achos yn wahanol ac, felly, bydd angen ymdrin â phob un yn ôl ei ffeithiau a'i rinweddau unigryw ei hun.**

Bydd Cyngor y Gweithlu Addysg ('CGA') yn adolygu ac yn ailgyhoeddi'r Arweiniad hwn ynghylch Sancsiynau Dangosol yn barhaus.

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol a oedd ar waith o 1 Awst 2023 ac fe ddaw i rym o 9 Mai 2024. Mae'n berthnasol i bob gwrandawiad gerbron Pwyllgorau o'r dyddiad hwnnw ymlaen, ni waeth pa bryd yr atgyfeiriwyd y person cofrestredig i CGA.

## 2 Categorïau cofrestru

- athrawon ysgol*
- gweithwyr cymorth dysgu ysgolion
- athrawon ysgolion annibynnol
- gweithwyr cymorth dysgu ysgolion annibynnol
- athrawon addysg bellach*
- gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach
- penaethiaid neu uwch arweinwyr addysg bellach
- athrawon sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
- gweithwyr cymorth dysgu sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol
- ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith
- ymarferwyr addysg oedolion*
- gweithwyr ieuenctid*
- gweithwyr cymorth ieuenctid*

* mae angen cymwysterau gofynnol ar y categorïau cofrestru hyn

Rhaid i Bwyllgorau benderfynu a ddylai'r Gorchymyn penodol sy'n cael ei roi fod yn berthnasol nid yn unig i'r categori cofrestru roedd y person yn ymarfer ynddo adeg yr atgyfeiriad i CGA, ond hefyd unrhyw gategorïau eraill roedd y person wedi'u cofrestru ynddynt pan wnaed penderfyniad y Pwyllgor.

## 3 Penderfynu gosod Gorchymyn ai peidio

Os yw Pwyllgor wedi canfod bod ffeithiau un honiad neu fwy wedi'u profi, a bod y ffeithiau hynny sydd wedi'u profi yn gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu euogfarn am drosedd berthnasol, **hyd yn oed os nad yw'r person wedi'i gofrestru gyda CGA ar adeg ei benderfyniad,** mae'n rhaid i'r Pwyllgor:

(a) ystyried hanes a chymeriad blaenorol y person cofrestredig ac unrhyw amgylchiadau lliniarol;

(b) penderfynu a ddylid gwneud gorchymyn disgyblu yn erbyn person cofrestredig; ac, os yw'n berthnasol, nodi amodau un o'r gorchmynion canlynol:

- **Cerydd**

  Ni effeithir ar gofrestriad y person cofrestredig. Bydd Cerydd yn aros ar y Gofrestr Ymarferwyr Addysg ('y Gofrestr') am ddwy flynedd.

- **Gorchymyn Cofrestru Amodol**

  Mae cofrestriad parhaus y person cofrestredig yn ddarostyngedig i amod neu amodau a osodir gan Bwyllgor y mae'n rhaid iddo gydymffurfio â hwy. Gellir gosod yr amodau hyn am gyfnod penodedig, neu heb derfyn amser.

- **Gorchymyn Atal** (a allai gynnwys amodau neu beidio)

  Caiff y person cofrestredig eu hatal rhag bod ar y Gofrestr. Gall Pwyllgor osod y Gorchymyn hwn am gyfnod o hyd at ddwy flynedd. Mae amod a nodir mewn Gorchymyn Atal yn dod i rym am y cyfnod a bennir, neu heb derfyn amser.

  Pan fydd y Gorchymyn Atal wedi dod i ben, cyhyd â bod unrhyw amodau wedi'u bodloni, rhaid i'r person dan sylw ail-ymgeisio i gofrestru.

  **Mater i Bwyllgor fydd penderfynu, gan ddefnyddio ei grebwyll ei hun, hyd y Gorchymyn ar sail difrifoldeb yr achos penodol.**

- **Gorchymyn Gwahardd.**

  Caiff y person cofrestredig eu tynnu oddi ar y Gofrestr. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor osod terfyn amser heb fod yn llai na dwy flynedd cyn i'r person cofrestredig allu gwneud cais i fod yn gymwys i gael eu haildderbyn i'r Gofrestr. Ar ôl i'r cyfnod penodedig ddod i ben, caiff ef neu hi wneud cais i CGA i fod yn gymwys i'w aildderbyn. Caiff unrhyw gais o'r fath ei ystyried gan Bwyllgor a gynullir o'r newydd a bydd angen i'r Pwyllgor hwnnw gael ei fodloni bod cymeriad a chymhwysedd y person ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill yn ddigon derbyniol i adfer cymhwysedd y person i gofrestru.

  Pe bai Pwyllgor yn caniatáu cais am gymhwysedd, rhaid i'r person dan sylw ailymgeisio i gofrestru.

  Os na chyflwynir cais, bydd y person yn parhau wedi'i wahardd.

  **Mater i Bwyllgor fydd penderfynu, gan ddefnyddio ei grebwyll ei hun, y cyfnod y mae'n rhaid iddo fynd heibio cyn i'r ymarferydd allu gwneud cais i'w gymhwysedd i gofrestru ar y Gofrestr gael ei adfer, ar sail difrifoldeb yr achos penodol.**

(c) penderfynu a ddylid ond cymhwyso'r Gorchymyn penodol i'r categori cofrestru yr oedd y person yn ymarfer ynddo ar adeg yr atgyfeiriad i CGA ai peidio, neu a ddylid ei gymhwyso i gategorïau eraill y mae'r person wedi'u cofrestru ynddynt ar adeg penderfyniad y Pwyllgor.

Wrth wneud y penderfyniad hwn, dylai'r Pwyllgor feddwl yn ofalus pa mor berthnasol y mae'r ymddygiad neu'r anghymhwysedd a brofwyd i ymarfer y person mewn unrhyw gategorïau cofrestru eraill, a'r risgiau pe na bai'r Pwyllgor yn cymhwyso Gorchymyn o'r fath iddynt.

## 4 Y Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Cofrestreion gyda CGA (‘y Cod’)

Wrth wneud ei benderfyniadau o dan baragraff 3 uchod, **rhaid** i Bwyllgor gyfeirio at fersiwn berthnasol y Cod sydd ar waith ar yr adeg berthnasol.

Er enghraifft:

- gellir barnu bod athro ysgol sydd wedi'i ddiswyddo gan ei gyflogwr am fethu ymateb yn briodol i bryderon diogelu sy’n groes i bolisi’r ysgol, ac adrodd arnynt, wedi torri’r adrannau canlynol o’r Cod sy'n nodi bod Cofrestreion:

  *‘1.4 yn meddu ar ddyletswydd gofal dros ddiogelwch dysgwyr a phobl ifanc a’u llesiant corfforol, cymdeithasol, moesol, ac addysgol:*
    - *gweithredu ar unrhyw beth a allai beryglu diogelwch neu lesiant dysgwr neu berson ifanc*
    - *adrodd ar, yn unol â 4.3, unrhyw fater diogelu, neu unrhyw fater arall a allai o bosibl niweidio diogelwch neu lesiant dysgwr neu berson ifanc’*

  *‘4.3 yn gwybod, yn deall, ac yn cydymffurfio â pholisïau, gweithdrefnau a chanllawiau diogelu cyfredol sy’n berthnasol i’w hymarfer’*

- gellir barnu bod athro addysg bellach sydd wedi'i ddiswyddo gan ei gyflogwr am ffugio ei gais am gyflogaeth mewn sefydliad addysg bellach wedi torri’r adran o’r Cod sy'n nodi bod Cofrestreion:

  *‘2.2 yn ymddwyn yn onest, a chydag unplygrwydd, yn arbennig o ran y canlynol:*
    - *rhinweddau, profiad, a chymwysterau personol*
    - *geirdaon, datganiadau a wneir, ac wrth lofnodi dogfennau*

- gellir barnu bod gweithiwr ieuenctid sydd wedi'i ddiswyddo gan ei gyflogwr am sgyrsiau amhriodol gyda phlentyn ar Facebook a thrwy negeseuon testun, wedi torri’r adran o’r Cod sy'n nodi bod Cofrestreion:

  *‘1.2 yn cynnal perthnasoedd gyda dysgwyr a phobl ifanc mewn modd proffesiynol, drwy:*
  *ddefnyddio pob math o ddull cyfathrebu mewn modd priodol a chyfrifol, yn arbennig y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnal ffiniau proffesiynol*

Fodd bynnag, os bydd Pwyllgor yn canfod bod person cofrestredig wedi torri'r Cod, nid yw'n golygu’n awtomatig y dylai Gorchymyn ddilyn (gweler adran 6.1 isod). Dylai Pwyllgor barhau i ystyried y camymddygiad neu'r anghymhwysedd a ganfuwyd yn erbyn yr Arweiniad ynghylch Sancsiynau Dangosol, a mynd i'r afael â **difrifoldeb** yr achos hwnnw o dorri’r Cod wrth benderfynu a ddylid gosod Gorchymyn ai peidio.

Ni ddylai Pwyllgor ddefnyddio'r Cod yn ddangosydd difrifoldeb – arweiniad cyffredinol ynghylch safonau ymddygiad a chymhwysedd priodol ar gyfer personau cofrestredig yw'r Cod. Mater i'r Pwyllgor yw penderfynu ynghylch difrifoldeb.

Ni chaniateir cyfeirio at y Cod yn achos honiadau o ymddygiad proffesiynol annerbyniol/anghymhwysedd proffesiynol difrifol/euogfarn am drosedd berthnasol a ddigwyddodd cyn:

- 1 Medi 2010 ar gyfer athrawon ysgol
- 1 Ebrill 2015 ar gyfer athrawon addysg bellach
- 1 Ebrill 2016 ar gyfer gweithwyr cymorth dysgu ysgol a gweithwyr cymorth dysgu addysg bellach
- 1 Ebrill 2017 ar gyfer gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith
- 22 Mai 2023 ar gyfer athrawon ysgolion annibynnol, gweithwyr cymorth dysgu ysgolion annibynnol, athrawon annibynnol ôl-16 a gweithiwr cymorth dysgu ysgol annibynnol ôl-16
- 10 Mai 2024 ar gyfer rheolwyr addysg bellach ac ymarferwyr addysg oedolion; a
- y dyddiad, os yw’n hwyrach na’r uchod, y daeth yr unigolyn yn berson cofrestredig yn y categori neu’r categorïau cofrestru perthnasol

## 5 Diben Gorchymyn

Wrth benderfynu a ddylid gosod Gorchymyn, ac os felly, pa Orchymyn i'w osod, dylai aelodau Pwyllgorau ystyried yr egwyddorion allweddol canlynol:

### 5.1 Budd y Cyhoedd

Prif ddiben Gorchymyn yw **diogelu budd dysgwyr, y cyhoedd a'r proffesiynau addysg,** yn hytrach na chosbi neu roi bai. Yn hyn o beth, mae'r ddogfen hon yn diffinio bod 'budd y cyhoedd' yn cynnwys pob un o'r grwpiau hyn.

Mae awdurdod barnwrol yn glir bod budd y cyhoedd yn cynnwys:

(a) diogelu dysgwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd;

(b) cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau addysg a'r broses reoleiddio;

(c) datgan a chynnal safonau priodol o ymddygiad a chymhwysedd.

Mae awdurdod barnwrol hefyd y gallai fod o fudd y cyhoedd i ymarferydd effeithiol allu parhau i ymarfer yn ei ddewis broffesiwn.

Er mai prif ddiben Gorchymyn yw peidio â chosbi, cydnabyddir y gall Gorchymyn gael effaith gosbol.

### 5.2 Cymesuredd

Mae egwyddor cymesuredd yn gofyn bod mesur yn cyflwyno cyfyngiad nad yw'n drymach ar hawl confensiwn nag sydd wir yn angenrheidiol i gyflawni ei amcan. Yng nghyd-destun gweithdrefnau rheoleiddio, yr hawl confensiwn y cyfeirir ati yw hawl person i ymarfer yn ei ddewis broffesiwn a'r amcan yw diogelu budd y cyhoedd. Mae'n rhaid i'r Pwyllgor benderfynu a yw'n angenrheidiol gosod Gorchymyn ac, os ydyw, beth yw'r ffordd leiaf ymwthgar o ddiogelu budd y cyhoedd.

Mae cymesuredd yn ei gwneud yn ofynnol i Bwyllgorau ystyried a phenderfynu a ellid defnyddio mesur llai ymwthgar heb niweidio'r amcan o ddiogelu budd y cyhoedd yn annerbyniol. Wrth ystyried hyn a difrifoldeb y canlyniadau i'r person cofrestredig, dylai Pwyllgorau geisio sicrhau cydbwysedd teg rhwng hawliau'r unigol a budd y cyhoedd.

Wrth benderfynu a ddylid gosod Gorchymyn ac (os felly), pa orchymyn i'w osod, dylai'r Pwyllgor ystyried ystyriaethau budd y cyhoedd o blaid ac yn erbyn, yn ogystal â buddiannau'r person cofrestredig. At hynny, bydd angen iddo ystyried unrhyw liniariad a gyflwynwyd gan y person cofrestredig, yn gymesur â natur a difrifoldeb yr ymddygiad a'r digwyddiad(au) dan sylw.

Wrth ystyried difrifoldeb yr ymddygiad, mae'n bwysig i'r Pwyllgor ystyried y rôl ddylanwadol y gall person cofrestredig ei chwarae wrth lunio barn ac ymddygiad dysgwyr.

Os yw Pwyllgor wedi penderfynu bod angen gorchymyn disgyblu penodol er mwyn diogelu budd y cyhoedd (ac felly dyna'r isafswm gamau gofynnol i wneud hynny), dylid gosod y gorchymyn hwnnw, hyd yn oed lle gallai hyn arwain at anawsterau ar gyfer person cofrestredig.

Mae'n rhaid i Bwyllgor sicrhau bod cymesuredd wedi'i ystyried yn glir wrth ddrafftio a chyhoeddi ei benderfyniad.

### 5.3 Ffactorau lliniarol a ffactorau gwaethygol

Dylai'r Pwyllgor ystyried ffactorau lliniarol a ffactorau gwaethygol. Fodd bynnag, dylai i ba raddau y dylai ffactorau lliniarol neu ffactorau gwaethygol o'r fath ddylanwadu ar farn y Pwyllgor o ran canfod ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu euogfarn am drosedd berthnasol ddibynnu ar amgylchiadau unigol yr achos a dylai'r Pwyllgor arfer ei ddisgresiwn.

Mae Adran 7 yn cynnwys arweiniad pellach ar y ffactorau hyn.

### 4.4 Rhesymau dros benderfyniadau a gorchmynion

Ym mhob achos disgyblu, mae'n hanfodol bod y Pwyllgor yn rhoi rhesymau clir dros ei benderfyniad naill ai i beidio â gosod Gorchymyn, neu i osod gorchymyn disgyblu penodol. Dylai hyn gynnwys:

- pam mae wedi dewis yn *eithriadol* beidio â gosod gorchymyn ar ôl canfod ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn am drosedd berthnasol;

- y rhesymeg dros osod gorchymyn penodol, yn hytrach na gosod unrhyw orchymyn arall, ac esboniad ynghylch pam mae Pwyllgor wedi gwneud hynny. Dylai'r Pwyllgor ddefnyddio'r meini prawf a ddisgrifir isod i ddangos pam mae sancsiynau ar lefel is, sydd wedi'u hystyried gan y Pwyllgor, wedi'u gwrthod, ac os yw'n berthnasol, pam nad yw'r sancsiwn nesaf i fyny ar y rhestr yn briodol;

- **lefel difrifoldeb** yr ymddygiad proffesiynol annerbyniol, yr anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu'r euogfarn am drosedd berthnasol a ganfuwyd;

- ffactorau a ystyriwyd gan y Pwyllgor;

- i ba raddau yr ystyriwyd budd y cyhoedd ac y cafodd ei bwyso a'i fesur ochr yn ochr â budd y person cofrestredig;

- cyfeirio at y Cod lle y bo'n briodol.

Dylai Pwyllgor gymryd Rheol 37 Gweithdrefnau a Rheolau Disgyblu CGA i ystyriaeth wrth drafod a chofnodi ei resymau:

'*Bydd gan unrhyw berson sy'n tybio iddo gael cam gan benderfyniad Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer i osod gorchymyn disgyblu'r hawl i apelio yn erbyn y gorchymyn at yr Uchel Lys o fewn 28 diwrnod o'r dyddiad y cyflwynir Hysbysiad y gorchymyn iddo/iddi.*'

### 5.5 Cyfraith Achosion Berthnasol

Mae cyfraith achosion wedi sefydlu'r egwyddorion canlynol:

1. ***Needham v Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth* [2003] EWHC 1141**

    - Mae tegwch yn mynnu rhoi rhesymau.
    - Amgylchiadau arbennig pob achos fydd yn penderfynu a roddwyd rhesymau digonol.
    - Nid oes angen i resymau fod yn fanwl nac yn hir, ond dylent hysbysu'r partïon yn fras pam y daethpwyd i'r penderfyniad.

2. ***R (Paterson) v Y Cyngor Meddygol Cyffredinol* [2006] EWHC 891 (Gwein.)**

    - Nid yw'n ddigonol i benderfyniad y Pwyllgor nodi'r ffactorau a roddwyd yn yr arweiniad dangosol yn unig. Dylai penderfyniad y Pwyllgor gynnwys dadansoddiad, esboniad neu resymeg i ddangos sut y cymhwyswyd y ffactorau dangosol i'r ffeithiau arbennig a ganfuwyd gan y Pwyllgor.
    - Er enghraifft, os bydd y Pwyllgor yn dod i'r casgliad nad yw Gorchymyn Cofrestru Amodol yn briodol, nid yw'n ddigonol i'r Pwyllgor ddweud na allai lunio amodau priodol i'w gosod ar gofrestriad. Dylai'r penderfyniad esbonio pam y daeth y Pwyllgor i'r casgliad na allai lunio amodau priodol.

3. ***Mahmood v Y Cyngor Meddygol Cyffredinol* [2007] EWHC 474 (Gwein.)**

- Nid yw'n foddhaol i Bwyllgor ystyried rhywbeth wrth ddod i benderfyniad ond wedyn methu â nodi hynny fel rhan o'i resymau dros ddod i'r casgliad hwnnw.

4. ***Moyo v Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth* [2016] 4 WLR 11**

- Nid oes unrhyw faich ffurfiol na safon prawf ar y cam sancsiynu. Mater i'r Pwyllgor yw defnyddio ei farn i benderfynu pa sancsiwn fyddai'n gymesur er mwyn diogelu budd y cyhoedd.
- Mae'n ofynnol i Bwyllgor roi rhesymau digonol dros ei benderfyniad ar sancsiwn.
- Fodd bynnag, ni ddisgwylir iddo roi rhesymau i'r un safon â llys.
- Yn gyffredinol, byddai'n ddigonol i'r rhesymau ddangos pam roedd y Pwyllgor o'r farn bod y sancsiwn a osodwyd yn briodol a pham nad oedd sancsiynau eraill yn briodol.

**6 Gorchmynion**

Mae'r canlynol yn amlinellu'r Gorchmynion sydd ar gael i Bwyllgor, ac yn esbonio'r meini prawf tebygol ar gyfer cymhwyso pob un ohonynt. Dylid ystyried y sancsiynau yn y drefn ganlynol, ond **ni rwystrir** Pwyllgor, yn ystod ei drafodaethau, **rhag ailystyried Gorchymyn is, neu beidio â gosod Gorchymyn, ar ôl iddo symud i fyny'r raddfa**:

- dim Gorchymyn;
- **Cerydd;**
- **Gorchymyn Cofrestru Amodol;**
- **Gorchymyn Atal** (a allai gynnwys amodau neu beidio);
- **Gorchymyn Gwahardd.**

**Ni rwystrir Pwyllgor rhag gosod Gorchymyn yn achos person nad yw:**

- **wedi'i gofrestru ar hyn o bryd gyda CGA;**
- **wrthi'n ymarfer yn unrhyw un o'r categorïau cofrestru a amlinellir yn Adran 2 uchod mwyach;**
- **yn cyflawni 'gwaith penodedig' athro ysgol,**

**ar adeg penderfyniad y Pwyllgor.**

**Mae person yr ataliwyd ei gofrestriad gan Orchymyn hefyd yn gallu bodloni amodau.**

**6.1 Dim Gorchymyn**

<u>Achosion lle nad yw'n briodol gosod Gorchymyn</u>

Pan fydd Pwyllgor yn penderfynu bod ffeithiau achos wedi eu profi a'u bod yn gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol ac/neu euogfarn am drosedd berthnasol, dylai'r Pwyllgor ystyried a ddylid gosod Gorchymyn ai peidio.

**Dylai Pwyllgorau nodi y bydd dyfarniad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol ac/neu euogfarn am drosedd berthnasol yn arwain fel arfer at osod Gorchymyn.** Dim ond mewn amgylchiadau *<u>eithriadol</u>* y dylai Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer benderfynu peidio â gosod Gorchymyn, pan fydd yn glir nad yw'r penderfyniad hwnnw'n groes i fudd dysgwyr, y cyhoedd a'r proffesiynau addysg.

Wrth wneud ei benderfyniad, dylai Pwyllgor nodi bod yr Uchel Lys wedi datgan y gallai datganiad ffurfiol, cyhoeddus o ganfyddiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol gael ei ystyried yn fath o sancsiwn ynddo'i hun. Gall gyfleu bai moesol i'r dinesydd cyffredin, effeithio ar enw da proffesiynol person cofrestredig ac, i ryw raddau, eu rhagolygon cyflogaeth.

Os bydd Pwyllgor yn penderfynu peidio â gosod gorchymyn, dylai roi rhesymau clir a manwl dros y penderfyniad hwn.

Dylai Pwyllgor ystyried a yw'n briodol ac yn ddigonol peidio â gosod gorchymyn disgyblu ai peidio.

**Os yw o'r farn y dylid gosod gorchymyn, dylai Pwyllgor benderfynu a fydd Cerydd yn briodol ai peidio (6.2)**

**6.2 Cerydd**

Achosion lle bydd Cerydd yn briodol

Pan fydd Pwyllgor yn penderfynu nad yw'n ddigonol terfynu achos 'heb Orchymyn', Cerydd yw'r Gorchymyn isaf y gellir ei weithredu. Gall Cerydd felly fod yn briodol a/neu'n ddigonol pan fydd yr ymddygiad proffesiynol annerbyniol, yr anghymhwysedd proffesiynol difrifol neu'r euogfarn am drosedd berthnasol **ar ben isaf y raddfa, a chaiff Cerydd ei weithredu i nodi'r ffaith bod yr ymddygiad yn annerbyniol ac na chaiff ddigwydd eto**. Fodd bynnag, nid yw hyn yn atal y Pwyllgor rhag gosod gorchymyn uwch, hyd yn oed os bodlonir y meini prawf y cyfeirir atynt isod.

Mae'n annhebygol y bydd Pwyllgor yn ystyried bod Cerydd yn briodol lle bydd yn canfod ffeithiau sy'n ymwneud ag anghymhwysedd proffesiynol difrifol, hyd yn oed lle mae'r person wedi dangos crebwyll ac wedi cymryd camau unioni. Serch hynny, nid yw hyn yn atal Pwyllgor rhag gwneud hynny.

Dylid cyfleu'r rhesymau dros osod Cerydd ym mhenderfyniad ysgrifenedig y Pwyllgor. Caiff rhesymau o'r fath eu hailnodi yn yr Hysbysiad Penderfyniad a gyhoeddir gan CGA i'r person cofrestredig.

Effaith y Gorchymyn

**Nid yw Cerydd yn effeithio ar gofrestriad person**, ond mae'n aros ar y Gofrestr am gyfnod o ddwy flynedd. Caiff Cerydd ei ddatgelu i gyflogwr neu ddarpar gyflogwr o dan Reoliadau Llywodraeth Cymru, yn rhan o'r gwiriadau cofrestru cyn cyflogi.

Arweiniad Dangosol

**Gallai'r gorchymyn hwn fod yn briodol pan fydd y rhan fwyaf o'r ffactorau canlynol yn bresennol** (nid rhestr gyflawn yw hon):

- Tystiolaeth na fyddai'r ymddygiad wedi effeithio'n ddifrifol ar ddysgwyr ac na ddigwyddodd yn ystod oriau pan oedd y person cofrestredig yn ymarfer.
- Mae'r person cofrestredig yn dangos crebwyll i'w fethiannau/methiannau.
- Mae'r person cofrestredig yn cyfaddef i'r honiadau.
- Roedd y digwyddiad yn fethiant unigryw ac nid oedd yn fwriadol.
- Mae'r person cofrestredig yn mynegi edifeirwch neu ymddiheuriad didwyll.
- Tystiolaeth o weithredu o dan orfodaeth neu gael ei bryfocio.
- Mae hanes blaenorol da gan y person cofrestredig.
- Nid yw'r ymddygiad wedi digwydd eto ers y digwyddiad.
- Mae'r person cofrestredig wedi cymryd camau adferol/cywirol.

- Mae geirdaon a thystlythyrau perthnasol a phriodol wedi'u darparu.

Dylai Pwyllgor ystyried a yw'n ddigonol terfynu'r achos â Cherydd ai peidio.

**Os nad ydyw, dylai'r Pwyllgor benderfynu a fyddai'n briodol gosod amodau ar gofrestriad y person ai peidio (6.3)**

**6.3 Gorchymyn Cofrestru Amodol**

Achosion lle bydd Gorchymyn Cofrestru Amodol yn briodol

Gall Pwyllgor osod Gorchymyn Cofrestru Amodol pan fydd o'r farn **bod gwir bosibilrwydd y bydd camau adsefydlu neu adfer yn llwyddiannus, ac y gellir cywiro cyfnod o ymddygiad neu berfformiad anfoddhaol** gan y canlynol, er enghraifft:

- hyfforddiant neu ailhyfforddiant;
- datblygiad personol neu broffesiynol;
- triniaeth neu adferiad meddygol;
- amod cyfyngol sy'n pennu o fewn pa ffiniau y mae'n rhaid i berson cofrestredig weithredu yn ei rôl broffesiynol neu ei fywyd/bywyd personol (hyd nes i'r cyfryw hyfforddiant, ailhyfforddiant neu ddatblygiad ddigwydd).

Gall amodau olygu gwariant ar ran y person cofrestredig dan sylw.

Cyn gosod amodau sy'n cynnwys ailhyfforddi neu ddatblygiad arall, dylai'r Pwyllgor fodloni ei hun ynghylch y canlynol:

(a) bod y person cofrestredig wedi dangos arwyddion y byddai ef neu hi yn barod i wella'r problemau a nodwyd trwy ddefnyddio amodau;

(b) bod amcanion yr amodau'n glir; a

(c) bydd y swyddog a awdurdodir yn briodol ac unrhyw Bwyllgor a gynullir o'r newydd yn y dyfodol yn gallu penderfynu a yw'r amodau wedi'u bodloni ai peidio.

Dylai Pwyllgor gadw mewn cof na ddylid ystyried bod amodau'n ddewis 'llai cosbol' na Gorchymyn Atal (gyda neu heb amodau) neu Orchymyn Gwahardd, pan fo Gorchymyn Atal neu Orchymyn Gwahardd yn ddewis mwy priodol o ystyried canfyddiadau penodol Pwyllgor. Diogelu dysgwyr, y cyhoedd a'r proffesiynau ddylai fod yn brif ystyriaeth i Bwyllgor.

Dylai Pwyllgor fod yn ochelgar os yw'n ystyried Gorchymyn Cofrestru Amodol lle mae wedi canfod ffeithiau sy'n ymwneud ag anghymhwysedd proffesiynol difrifol, gan y bydd hyn yn caniatáu i'r person cofrestredig barhau i ymarfer, er enghraifft, mewn ysgol neu leoliad addysg bellach. Yn arbennig, bydd athro ysgol mewn sefyllfa i barhau i gyflawni 'gwaith penodedig'.

Dylid cyfleu'r rhesymau dros osod Gorchymyn Cofrestru Amodol ym mhenderfyniad ysgrifenedig y Pwyllgor, gydag esboniad llawn ar yr amodau a osodwyd. Caiff y cyfryw resymau ac amodau a osodwyd eu hailadrodd yn yr Hysbysiad Penderfyniad a gyflwynir gan CGA i'r person cofrestredig.

Effaith y Gorchymyn

**Mae Gorchymyn Cofrestru Amodol yn caniatáu i'r person cofrestredig gynnal statws person cofrestredig, cyhyd â'i fod yn bodloni rhai amodau dros gyfnod amser penodedig.**

Caiff Gorchymyn Cofrestru Amodol ei gofnodi ar y Gofrestr am y cyfnod a nodir yn y gorchymyn. Os na phennir cyfnod, yna bydd manylion y gorchymyn yn cael eu cadw am byth. Caiff Gorchymyn Cofrestru Amodol ei ddatgelu i gyflogwr neu ddarpar gyflogwr o dan Reoliadau Llywodraeth Cymru, yn rhan o'r gwiriadau cofrestru cyn cyflogi.

Arweiniad Dangosol

**Gallai'r gorchymyn hwn fod yn briodol pan fydd y rhan fwyaf neu bob un o'r ffactorau hyn yn bresennol** (nid rhestr gyflawn yw hon):

- Nid oes unrhyw dystiolaeth o broblemau dwfn a niweidiol o ran personoliaeth neu agwedd.
- Nid yw'r person cofrestredig yn peri risg sylweddol o ymddwyn yn yr un modd eto, neu mae modd cywiro'r diffygion perfformiad, ym marn y Pwyllgor.
- Mae meysydd arfer amlwg y mae angen ailhyfforddiant ynddynt.
- Mae meysydd amlwg i'w datblygu.
- Mae'r person cofrestredig yn dangos posibilrwydd a pharodrwydd i ymateb yn gadarnhaol i ddatblygiad proffesiynol neu ailhyfforddi, ac yn dangos digon o grebwyll i awgrymu y bydd ef neu hi'n gallu cydymffurfio â'r amodau.
- Ni chaiff dysgwyr eu rhoi o dan anfantais ddifrifol na dioddef effaith ddifrifol naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o ganlyniad i Orchymyn Cofrestru Amodol.
- Bydd yr amodau'n diogelu dysgwyr, cyd-ymarferwyr addysg neu'r cyhoedd yn ystod y cyfnod pan fyddant mewn grym.
- Mae'n bosibl llunio amodau priodol ac ymarferol i'w gosod ar y cofrestriad.

Manylion y Gorchymyn

Bydd y gorchymyn yn nodi'r holl amodau sy'n berthnasol i gyflogaeth y person cofrestredig y mae'n ofynnol iddo/iddi gydymffurfio â hwy, ac mewn perthynas â phob amod, naill ai'r cyfnod y bydd mewn grym, neu ei fod yn barhaol, heb derfyn amser.

Mae CGA wedi datblygu arweiniad ar wahân, o'r enw ***Arweiniad ynghylch Llunio Amodau.*** Os bydd Pwyllgor yn penderfynu y dylid cymhwyso amodau, dylai gyfeirio at yr arweiniad ychwanegol hwn am gymorth**.**

Dylai Pwyllgor ystyried a yw'n ddigonol terfynu'r achos drwy osod amodau ar gofrestriad y person ai peidio.

**Os nad yw'n ddigonol, dylai'r Pwyllgor benderfynu a fyddai atal y person rhag cael ei gynnwys ar y Gofrestr yn briodol ai peidio (6.4)**

**6.4 Gorchymyn Atal** (a allai bennu amodau)

Achosion lle bydd Gorchymyn Atal yn briodol

Gellir defnyddio Gorchymyn Atal i ddangos/roi arwydd i'r person cofrestredig, y proffesiwn a'r cyhoedd ynghylch yr hyn a ystyrir yn ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol ac/neu euogfarn am drosedd berthnasol.

Mae Gorchymyn Atal **yn debygol o fod yn briodol a/neu'n ddigonol ar gyfer camymddygiad neu anghymhwysedd sy'n ddifrifol, ond heb fod yn ddigon difrifol i gyfiawnhau gwahardd** (er enghraifft, pan gydnabuwyd y bai a phan fydd Pwyllgor wedi'i fodloni bod yr ymddygiad neu'r diffygion perfformiad yn annhebygol o ddigwydd eto, er y gall fod yn anoddach barnu ynghylch hyn ar ôl canfod anghymhwysedd proffesiynol difrifol).

Gall fod achosion lle nad yw Gorchymyn Cofrestru Amodol yn ddigonol i warchod budd y cyhoedd, ond lle mae **tystiolaeth bod gan y person cofrestredig y potensial i gael eu hadsefydlu os ydynt yn barod i fynychu ailhyfforddiant/datblygiad**. Mewn achosion o'r fath, ac er mwyn diogelu'r cyhoedd, gall Pwyllgor ddymuno gosod cyfnod o ataliaeth, a gweithredu amodau o ran y math o raglen ailhyfforddi y gallai'r ymarferydd ei dilyn yn ystod y cyfnod o ataliaeth, neu'r camau y gallai ef neu hi eu cymryd (fel 6.3).

Dylid cyfleu'r rhesymau dros osod Gorchymyn Atal ym mhenderfyniad ysgrifenedig y Pwyllgor, gydag esboniad llawn o unrhyw amodau a osodwyd. Caiff y cyfryw resymau ac amodau a osodwyd eu hailadrodd yn yr Hysbysiad Penderfyniad a gyflwynir gan CGA i'r person cofrestredig.

<u>Effaith y Gorchymyn</u>

Mae Gorchymyn Atal yn cael effaith gosbol am ei fod yn **atal y person rhag ymarfer** yn y categori neu'r categorïau cofrestru y maent wedi'u cofrestru ynddo/ynddynt ar adeg penderfyniad y Pwyllgor (ac felly'n eu hatal rhag ennill bywoliaeth yn hynny o beth) yn ystod cyfnod y Gorchymyn Atal.

**Caiff enw'r person ei ddileu oddi ar y Gofrestr am y cyfnod penodedig**. Caiff Gorchymyn Atal ei ddatgelu i gyflogwr neu ddarpar gyflogwr o dan Reoliadau Llywodraeth Cymru, yn rhan o'r gwiriadau cofrestru cyn cyflogi.

**Mae personau sydd wedi'u hatal, y mae eu Gorchymyn Atal yn destun amodau, yn parhau'n anghymwys i gofrestru os methant gydymffurfio â'r amodau hynny, hyd yn oed wedi'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn i ben.**

**Byddai amod a osodir 'heb derfyn' gan Bwyllgor yn golygu y gellir cwblhau'r amod 'ar unrhyw adeg' yn ystod cyfnod y Gorchymyn Atal, yn hytrach na mewn cyfnod penodol, diffiniedig.**

<u>Arweiniad Dangosol</u>

**Gall y sancsiwn hwn fod yn briodol pan fydd rhai neu bob un o'r ffactorau canlynol yn amlwg** (nid rhestr gyflawn yw hon):

- Digwyddiad difrifol neu gyfnod estynedig o ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol ac/neu euogfarn am drosedd berthnasol lle na fo sancsiwn llai'n ddigonol.

- Nid yw'r ymddygiad neu'r materion perfformiad y cafwyd eu bod wedi'u profi yn sylfaenol anghydnaws â pharhau i fod yn berson cofrestredig.

- Nid oes tystiolaeth o broblemau dwys a niweidiol o ran personoliaeth ac agwedd.

- Nid yw'r person cofrestredig yn peri risg sylweddol o ymddwyn yn yr un modd eto, nac yn methu gwella ei gymhwysedd/chymhwysedd fel ymarferydd addysg.

<u>Manylion y Gorchymyn</u>

Bydd y gorchymyn yn pennu'r cyfnod (**na fydd yn fwy na 2 flynedd**) na fydd y person yn gymwys i gofrestru eto hyd nes iddo ddod i ben, ac unrhyw amodau y mae'n rhaid iddo/iddi gydymffurfio â hwy cyn gallu dod yn gymwys eto i gofrestru.

***Mater i ddisgresiwn a chrebwyll y Pwyllgor yw cyfnod y gorchymyn, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos penodol, ac mae angen rhoi sylw gofalus iddo.***

Mae CGA wedi datblygu arweiniad ar wahân, o’r enw ***Arweiniad ynghylch Llunio Amodau.*** Os bydd Pwyllgor yn penderfynu y dylid cymhwyso amodau, dylai gyfeirio at yr arweiniad ychwanegol hwn am gymorth.

Dylai Pwyllgor ystyried a yw’n ddigonol terfynu’r achos â Gorchymyn Atal ai peidio.

**Os nad yw'n ddigonol, dylai'r Pwyllgor benderfynu a fyddai atal y person rhag cael ei gynnwys ar y Gofrestr yn briodol (6.5)**

**6.5 Gwahardd**

Achosion lle bydd Gorchymyn Gwahardd yn briodol

Mae gwahardd o’r Gofrestr yn briodol pan fydd tystiolaeth o weithredoedd difrifol, bwriadol neu ddi-hid, a/neu ddiffygion perfformiad difrifol, a **dyma’r unig ffordd o ddiogelu dysgwyr a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau addysgu.** Fodd bynnag, ni ddylai Pwyllgorau deimlo’i bod yn angenrheidiol gwahardd person cofrestredig er mwyn bodloni galwadau’r cyhoedd am roi bai a chosbi.

Ffeithiau arbennig pob achos fydd yn penderfynu a yw gwaharddiad yn briodol, a dylai Pwyllgor ddefnyddio’i grebwyll ei hun wrth ddod i benderfyniad o’r fath.

Dylid cyfleu’r rhesymau dros osod Gorchymyn Gwahardd ym mhenderfyniad ysgrifenedig y Pwyllgor. Caiff y cyfryw resymau eu hailadrodd yn yr Hysbysiad Penderfyniad a gyflwynir gan CGA i’r person cofrestredig.

Effaith y Gorchymyn

**Caiff enw person sydd wedi’u gwahardd rhag ymarfer yn y proffesiynau addysgu ei ddileu oddi ar y Gofrestr**. **Mae personau sydd wedi'u gwahardd nad ydynt yn ymgeisio i adfer eu cymhwysedd i gofrestru ar y Gofrestr yn parhau’n anghymwys i gofrestru.**

Bydd person yn parhau i fod wedi’u gwahardd oni bai ei fod/bod yn gwneud cais i'w gymhwysedd/ei chymhwysedd i gofrestru ar y Gofrestr gael ei adfer, yn unol ag amserlen a bennir gan Bwyllgor. Os gwneir cais o’r fath bryd hynny, bydd angen i Bwyllgor arall, a gynullir o’r newydd, gael ei fodloni bod cymeriad yr ymarferydd, ei gymhwysedd ac unrhyw ffactorau perthnasol eraill yn ddigon derbyniol erbyn hyn i adfer cymhwysedd ef neu hi i gofrestru.

Caiff Gorchymyn Gwahardd ei ddatgelu i gyflogwr neu ddarpar gyflogwr o dan Reoliadau Llywodraeth Cymru, yn rhan o’r gwiriadau cofrestru cyn cyflogi.

**Mae Gorchymyn Gwahardd yn berthnasol yn Lloegr, lle mae’n ymwneud ag ymddygiad, yn wahanol i’r holl orchmynion eraill sydd ar gael i’r Pwyllgor.**

Arweiniad Dangosol

**Mae’r sancsiwn hwn yn debygol o fod yn briodol pan fydd yr ymddygiad yn sylfaenol anghydnaws â bod yn berson cofrestredig, mewn perthynas ag anghymhwysedd proffesiynol difrifol, pan fydd eu cymhwysedd yn annhebygol o wella, ac mae’n cynnwys unrhyw rai o’r canlynol** (nid rhestr gyflawn yw hon ac nid yw'n rhwystro Pwyllgor rhag defnyddio’i grebwyll ei hun mewn perthynas â difrifoldeb yr ymddygiad neu'r anghymhwysedd):

- Gwyriad arbennig o ddifrifol o’r safonau personol a phroffesiynol a ddisgwylir gan y Cod a’r Safonau Athrawon wrth eu Gwaith.

- Achos bwriadol neu ddi-hid o ddiystyru'r egwyddorion a nodir yn y Cod.
- Mae'r ymddygiad neu'r anghymhwysedd yn cael effaith ddifrifol ar addysg a/neu lesiant dysgwyr.
- Mae risg barhaus i addysg a/neu lesiant dysgwyr.
- Camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth (yn arbennig yng nghyswllt dysgwyr agored i niwed) neu dorri hawliau dysgwyr.
- Anonestrwydd (yn arbennig pan fu canlyniadau difrifol, dyfalbarhad a chuddio, neu anonestrwydd a gyflawnwyd er budd personol).
- Rhoi budd yr unigolyn dan sylw ei hun o flaen budd dysgwyr.
- Bwlio parhaus neu ddifrifol, neu ymddygiad bwriadol arall sy'n tanseilio dysgwyr, y proffesiynau addysgu, cydweithwyr a/neu'r cyflogwr.
- Camymddygiad rhywiol, e.e. gan gynnwys gweithredoedd yr roedd cymhelliant rhywiol iddynt neu roeddent o natur rywiol ac/neu sy'n defnyddio neu'n egsbloetio ymddiriedaeth, gwybodaeth neu ddylanwad a geir o sefyllfa broffesiynol yr unigol.
- Cyflawni trosedd ddifrifol.
- Diffyg mewnwelediad parhaus a/neu wadu difrifoldeb gweithredoedd neu ganlyniadau.
- Tystiolaeth o broblemau dwys a niweidiol o ran personoliaeth ac agwedd.
- Analluu neu amharodrwydd i ddatrys problemau, neu'n gwrthod gwneud hynny.
- Cam-drin cydweithwyr proffesiynol mewn ffordd sy'n torri eu hawliau neu eu galluoedd yn ddifrifol.

<u>Manylion y Gorchymyn</u>

Bydd Gorchymyn Gwahardd yn pennu'r cyfnod (**na fydd yn llai na 2 flynedd, gan ddechrau o'r dyddiad pan ddaw'r gorchymyn i rym**) na fydd y person yn gymwys i ymgeisio i'r Cyngor benderfynu ei fod ef neu ei bod hi yn gymwys i gofrestru cyn iddo ddod i ben.

***Mater i ddisgresiwn a chrebwyll y Pwyllgor yw cyfnod y gorchymyn, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos penodol, ac mae angen rhoi sylw gofalus iddo.***

**7 Arweiniad Ychwanegol**

**7.1 Pennu cyfnodau o amser**

Fel yr esboniwyd uchod, mater i Bwyllgor yw penderfynu, gan ddefnyddio ei grebwyll ei hun, hyd y Gorchymyn Cofrestru Amodol, Atal neu Wahardd, o ganlyniad i ddifrifoldeb ei ganfyddiadau.

Er nad yw CGA yn darparu arweiniad dangosol ynghylch pennu cyfnodau penodol o amser, dylai Pwyllgor gymryd i ystyriaeth y ffaith y gallai tensiwn godi pan fydd canfyddiadau Pwyllgor yn awgrymu gwyriad difrifol oddi ar y safonau a ddisgwylir gan y Cod, ond bod y cyfnod amser a osodir yn fyr, gan ganiatáu dychwelyd i ymarfer heb unrhyw gyfyngiadau yn gymharol gyflym ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud. Dylai Pwyllgor ystyried bob amser a yw hyd gorchymyn penodol yn diogelu budd y cyhoedd yn ddigonol ac a yw'n gymesur.

Os yw Pwyllgor yn penderfynu bod cyfnod byr yn briodol, dylai'r Pwyllgor allu rhoi rhesymau pam mae gorchymyn cyfnod byr yn briodol.

Enghraifft o sefyllfa lle gallai fod rheswm da dros osod cyfnod atal byr yw lle mae'r Pwyllgor yn penderfynu y byddai'r person cofrestredig yn elwa ar ailhyfforddi mewn maes penodol o'i arfer, ond mae'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad na fyddai budd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu drwy osod Gorchymyn Cofrestru Amodol. Os yw'r Pwyllgor yn dod i'r casgliad mai'r unig ffordd o ddiogelu budd y cyhoedd fyddai drwy ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol cyn i'r person cofrestredig ddychwelyd i ymarfer, gellid cyflawni hyn drwy osod Gorchymyn Atal am gyfnod byr a fyddai'n caniatáu i'r hyfforddiant gael ei gyflawni yn ystod cyfnod yr ataliad.

## 7.2 Achosion yn ymwneud ag Euogfarnau

Euogfarnau

Gellir gosod gorchymyn disgyblu pan fydd person cofrestredig wedi'u heuogfarnu (ar unrhyw adeg) am drosedd berthnasol. Ystyr 'trosedd berthnasol', yn achos euogfarn yn y Deyrnas Unedig, yw tramgwydd troseddol heblaw un nad oes iddo unrhyw berthnasedd arwyddocaol i addasrwydd y person i fod yn berson cofrestredig yn y categori cofrestru perthnasol. Mewn achos o euogfarn mewn man arall, yr ystyr yw trosedd a fyddai'n gyfystyr â throsedd o'r fath petai'n cael ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr.

**Mae euogfarn yn rhoi awdurdodaeth i Bwyllgor, hyd yn oed os nad oedd y drosedd yn ymwneud â chamymddygiad cysylltiedig ag ymarfer person,** cyhyd â bod y Pwyllgor yn dod i'r casgliad bod y drosedd o berthnasedd arwyddocaol i'r priodoldeb i fod yn berson cofrestredig.

Sancsiynau troseddol eraill

Gall Pwyllgor hefyd ystyried 'sancsiynau troseddol eraill', er enghraifft, rhybuddiad ffurfiol, cerydd neu rybudd gan yr heddlu, gorchymyn rhwymo neu gosb benodedig.

Dan adran 14(1) Deddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, ni fernir bod euogfarn o drosedd y gwneir gorchymyn ar ei chyfer i ryddhau'r troseddwr yn gyfan gwbl neu'n amodol yn euogfarn at unrhyw ddiben arall, felly dylai gael ei ystyried fel honiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac nid fel trosedd berthnasol.

Rôl Pwyllgor

Mewn gwrandawiad sy'n ymwneud ag euogfarn neu sancsiwn troseddol arall, rhaid i'r Pwyllgor gynnal asesiad o ddifrifoldeb y troseddu ac, o ran euogfarn, ystyried arwyddocâd y ddedfryd a roddwyd.

Fodd bynnag, dylai Pwyllgorau nodi nad yw'r ddedfryd a roddwyd yn ganllaw diffiniol i ddifrifoldeb y drosedd dan sylw. Mae'n bosibl y bu ffactorau lliniarol penodol a arweiniodd at y Llys yn rhoi dedfryd a allai, mewn cyd-destun rheoleiddiol, fod â llai o bwys wrth ystyried diben gwahanol achosion addasrwydd i ymarfer a'r ystyriaethau sy'n berthnasol o ran budd y cyhoedd. Yn unol â hynny, nid yw'r ddedfryd a geir yn ganllaw dibynadwy, o reidrwydd, o ddifrifoldeb y drosedd o ran cynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn.

Gwahoddir y Swyddog Cyflwyno i nodi tystiolaeth yn ymwneud â'r amgylchiadau a arweiniodd at euogfarn neu sancsiwn troseddol arall, cymeriad a hanes blaenorol person cofrestredig.

Gallai tystiolaeth gerbron llys troseddol, sy'n cael ei hystyried yn y treial neu'r broses ddedfrydu, gael ei rhoi gerbron Pwyllgor, hyd yn oed os yw'n cyfeirio at faterion nad ydynt wedi'u cyhuddo ar wahân fel camymddygiad, ar yr amod nad yw hynny'n creu annhegwch.

Caiff person cofrestredig y cyfle i annerch Pwyllgor i roi lliniariad ac i gyflwyno unrhyw dystiolaeth yn y cyswllt hwn. Fodd bynnag, dim ond os bydd y Pwyllgor yn dyfarnu bod ymddygiad proffesiynol annerbyniol ac/neu euogfarn am drosedd berthnasol y caiff ef neu hi'r cyfle hwn.

Nid diben gwrandawiad sy'n ymwneud ag euogfarn neu sancsiwn troseddol arall yw cosbi'r person cofrestredig eilwaith am y drosedd(troseddau) y cafwyd ef neu hi'n euog ohonynt, neu y cafodd sancsiwn amdanynt, ond diogelu'r

dysgwyr a allai gael eu haddysgu neu eu hyfforddi gan y person cofrestredig, a chynnal safonau uchel ac enw da'r proffesiynau addysg.

Fel arfer, pan fydd person cofrestredig wedi'u cael yn euog o drosedd neu droseddau difrifol, ni ddylid caniatáu iddynt ailddechrau ymarfer anghyfyngedig nes iddynt gyflawni eu dedfryd.

Gan ystyried y materion hyn, rôl Pwyllgor felly yw cydbwyso'r canlynol:

- natur a difrifoldeb y drosedd(troseddau) a'u heffaith ar briodoldeb y person cofrestredig i ymarfer yn erbyn yr angen am osod gorchymyn disgyblu; a'i

- ganlyniadau o ran gallu'r person cofrestredig i ymarfer ei broffesiwn neu ei phroffesiwn.

**7.3 Ffactorau lliniarol a ffactorau gwaethygol**

**Ffactorau lliniarol**

Dylid ystyried pob agwedd ar liniariad yn erbyn cyfrifoldeb statudol CGA a ddisgrifir yn 5.1 uchod.

Yn dilyn penderfyniad Pwyllgor yng nghyswllt canfyddiadau ffeithiol, a phenderfynu bod y ffeithiau hynny sydd wedi'u profi'n gyfystyr ag ymddygiad proffesiynol annerbyniol, anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu euogfarn am drosedd berthnasol, dylai Pwyllgor roi sylw dyledus i unrhyw liniariad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw liniariad a gyflwynir gan neu ar ran person cofrestredig.

Fodd bynnag, dylai Pwyllgor nodi na fydd person cofrestredig yn bresennol bob amser mewn gwrandawiad Pwyllgor Priodoldeb i Ymarfer i gyflwyno lliniariad ar lafar, neu gallai benderfynu peidio â chyflwyno unrhyw liniariad yn ysgrifenedig i'w gyflwyno ar y dydd. Felly, hyd yn oed mewn achosion lle na chyflwynir unrhyw liniariad yn ffurfiol gan neu ar ran y person cofrestredig, dylai'r Pwyllgor ystyried unrhyw wybodaeth sy'n gyfystyr â lliniariad ym marn y Pwyllgor, gan gynnwys yr enghreifftiau canlynol:

- Eglurhad o'r amgylchiadau a/neu'r digwyddiadau a arweiniodd at yr ymddygiad proffesiynol annerbyniol, yr anghymhwysedd proffesiynol difrifol a/neu'r euogfarn am drosedd berthnasol a gadarnhawyd.

- Lliniariad personol, megis cyfnodau o straen neu salwch, caledi personol ac ariannol, lefel profiad ar yr adeg dan sylw, lefel y gefnogaeth yn y gweithle (nid rhestr gyflawn yw hon).

- Yr amser sydd wedi mynd heibio ers y digwyddiadau perthnasol.

- Unrhyw ymddiheuriadau neu fynegiad o edifeirwch a roddwyd gan y person cofrestredig i achwynydd, cyflogwr neu unrhyw berson arall sy'n berthnasol i'r ymddygiad, yr anghymhwysedd neu'r drosedd berthnasol a gadarnhawyd.

- Tystiolaeth bod y person cofrestredig wedi ymdrechu i atal digwyddiadau o'r fath rhag digwydd eto, neu unrhyw ymdrechion i gywiro'r anawsterau. Er enghraifft, cwnsela, adsefydlu rheoli dicter, hyfforddiant pellach.

- Tystiolaeth o yrfa ddi-fai yn flaenorol.

- Hanes yr ymarferydd.

- Geirdaon neu dystlythyrau personol a rhai gan drydydd partïon am eu cymeriad.

Er y gallai lliniariad personol gario pwys sylweddol o blaid ymarferydd lle gosodir cosb yn y system cyfiawnder troseddol, mewn gweithdrefnau rheoleiddiol mae'n debygol o gario llai o bwys. Mae hyn oherwydd y caiff ei bwyso yn erbyn budd y cyhoedd fel y nodir yn 5.1 uchod, a'r ffaith mai diben sancsiynau rheoleiddio yw diogelu'r budd hwnnw

a pheidio â gosod cosb. Rhaid derbyn y gallai sancsiynau olygu effaith gosbol, ond nid dyna’u diben, fel yr amlinellir uchod.

Gellir cyflwyno tystiolaeth o liniariad drwy eirdaon a thystlythyrau.

**Geirdaon a Thystlythyrau**

Yn aml, bydd person cofrestredig yn cyflwyno geirdaon a thystlythyrau ynghylch ei statws yn y gymuned a/neu faes ymarfer proffesiynol. Fel gyda ffactorau lliniarol neu waethygol eraill, bydd angen i Bwyllgor bwyso a mesur y rhain yn briodol yn erbyn natur a difrifoldeb yr ymddygiad, yr anghymhwysedd neu'r drosedd berthnasol a gadarnhawyd.

Bydd nifer, ansawdd ac ystod y geirdaon a’r tystlythyrau’n amrywio o achos i achos.

Dylai Pwyllgor nodi’r canlynol wrth ystyried geirda a/neu dystlythyr er mwyn bod yn glir a yw cyflwyniad o’r fath yn sefyll fel darlun cywir, dilys a dibynadwy yng ngoleuni ffeithiau a brofwyd mewn achos:

- Pryd yr ysgrifennwyd y geirda neu’r tystlythyr.

- Gan bwy yr ysgrifennwyd y geirda neu’r tystlythyr, a yw wedi'i lofnodi gan yr unigolyn hwnnw a'i ysgrifennu ar bapur pennawd (lle y bo'n briodol). Er enghraifft, gan gydweithiwr proffesiynol, cyflogwr, neu gyfaill personol neu berthynas, a'i allu/gallu i gyflwyno sylwadau perthnasol neu arbenigol.

- Pa un a yw’r geirda neu’r tystlythyr wedi’i ddarparu’n benodol mewn perthynas â’r ymddygiad, yr anghymhwysedd neu’r troseddu yr atgyfeiriwyd y person cofrestredig at Bwyllgor disgyblu yn ei gylch, neu a yw’r awdur yn dangos diffyg ymwybyddiaeth o’r materion dan sylw.

- A oedd awdur y geirda neu'r tystlythyr yn dyst i'r ymddygiad, yr anghymhwysedd neu'r troseddu, ac felly’n gallu rhoi adroddiad o safbwynt uniongyrchol.

Lle nad yw geirda ysgrifenedig wedi’i lofnodi a/neu lle ei fod yn debyg o ran ei arddull, ei ffont neu ei iaith i eirdaon eraill a gyflwynwyd, gallai’r Pwyllgor ddymuno gofyn am eglurhad o’r amgylchiadau wrth ofyn am y geirdaon neu’r tystlythyrau neu wrth eu darparu.

Bydd angen i Bwyllgor ystyried yr holl ffactorau o’r fath wrth edrych ar eirdaon a thystlythyrau er mwyn pennu pa bwys y dylid ei roi arnynt.

**Mynegi Edifeirwch ac Ymddiheuriad**

Gall cyfaddefiad gan berson cofrestredig i Bwyllgor y gallai ef neu hi fod wedi ymddwyn neu ymarfer yn wahanol, o edrych yn ôl, ynghyd â bwriad i gymryd camau i atal yr ymddygiad/yr anghymhwysedd neu’r troseddu rhag digwydd eto, fod yn ffactor pwysig i Bwyllgor.

Fodd bynnag, dylai Pwyllgor fod yn ymwybodol y gallai fod gwahaniaethau yn y ffordd y mynegir y crebwyll hwnnw, er enghraifft, sut caiff ymddiheuriad neu fynegiad o edifeirwch ei lunio a’i gyfleu. Mae hyn yn arbennig o bwysig os nad yw’r person cofrestredig yn cael ei gynrychioli neu ei gefnogi mewn gwrandawiad, a’i fod yn siarad ar ei ran ei hun heb gyngor nac arweiniad proffesiynol.

Dylai Pwyllgor hefyd fod yn ymwybodol y gallai gwahaniaethau diwylliannol neu ieithyddol effeithio ar y ffordd y mae person cofrestredig yn ymgysylltu ac, er enghraifft, sut maent yn ymddiheuro.

Prif ystyriaeth Pwyllgor wrth wrando ar fynegiad o edifeirwch neu ymddiheuriad felly yw cael ei fodloni bod dysgwyr yn cael eu diogelu, a bod y person cofrestredig wedi cydnabod bod angen cymryd camau, a beth ddylai’r camau hynny fod – yn hytrach na sut y mynegir hynny.

**Gorchmynion interim blaenorol**

Mae gan orchmynion interim ddiben penodol, sef rheoli risg tra mae ymchwiliad yn mynd rhagddo.

Wrth benderfynu ar sancsiwn, gellir dweud wrth Bwyllgor bod person cofrestredig dan orchymyn atal dros dro interim. Dylai ystyried pa effaith y gallai hyn ei chael.

Er enghraifft, efallai mai dim ond cyfle cyfyngedig a gafodd y person cofrestredig i fynd i'r afael â'r risgiau yn eu hymarfer. Ar ben hynny, gall y ffaith bod y person cofrestredig dan orchymyn interim gynt, a'r cyfnod amser, fod yn ffactor perthnasol wrth benderfynu beth allai hyd sancsiwn o hyd cymesur fod.

Fodd bynnag, byddai fel arfer yn amhriodol didynnu neu ddiystyru'r cyfnod amser roedd y person cofrestredig dan orchymyn interim o ba orchymyn bynnag y mae'r Pwyllgor yn ystyried ei wneud yn unig, yn enwedig pan ystyrir bod risg barhaus i'r cyhoedd a/neu fod angen cymryd camau cyn y bydd ymarferydd yn addas i ymarfer eto. Byddai cynnwys amser i ffwrdd o ymarfer dan orchmynion atal dros dro interim mewn achosion tebyg yn debygol o danseilio amcanion diogelu'r cyhoedd, cynnal safonau a chynnal hyder y cyhoedd.

**Ffactorau gwaethygol**

Yn ogystal ag ystyried ffactorau lliniarol achos, bydd angen i'r panel ystyried unrhyw nodweddion gwaethygol, megis:

- unrhyw ganfyddiadau rheoleiddiol neu ddisgyblaethol blaenorol;
- cuddio cam;
- camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth;
- camymddygiad rhywiol;
- anonestrwydd;
- bwriad ymlaen llaw;
- diffyg crebwyll i fethiannau, edifeirwch neu dristwch;
- patrwm o gamymddygiad dros gyfnod o amser.

<u>Anonestrwydd</u>

Gellir ystyried bod anonestrwydd, lle nad yw'n arwain at niwed uniongyrchol i ddysgwyr ond sy'n gysylltiedig â materion y tu allan i arfer proffesiynol person cofrestredig, yn ddifrifol oherwydd y gall danseilio'r ymddiriedaeth a rydd y cyhoedd yn y proffesiynau addysg. Ystyrir mai gonestrwydd, unplygrwydd a dibynadwyaeth yw echelbin unrhyw ymarferydd addysg.

Yn unol â hynny, o ran unrhyw achos o anonestrwydd profedig, bydd risg o waharddiad bob tro, hyd yn oed mewn achosion o anonestrwydd untro, gan roi sylw arbennig i'r angen i gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn. Lle mae ymddygiad anonest wedi'i gyfuno â diffyg crebwyll, lle mae'n barhaus neu wedi'i guddio, nid yw unrhyw beth llai na gorchymyn gwahardd yn debygol o fod yn briodol.

Fodd bynnag, mae cwestiynau'n codi ynghylch graddau a bydd gwerthuso yn dibynnu ar ffeithiau ac amgylchiadau'r achos penodol bob tro.

Er enghraifft, gall gweithredoedd unigol o anonestrwydd proffesiynol lle caiff camwedd ei gydnabod ar unwaith gyfiawnhau sancsiwn llai.

Dylai Pwyllgor gydnabod bod sbectrwm eang o ymddygiad anonest, a all fod ar sawl ffurf. Mae'n cwmpasu ystod eang iawn o ffeithiau ac amgylchiadau gwahanol.

Felly, rhaid i Bwyllgor roi'r anonestrwydd a brofwyd yn ei gyd-destun ac asesu ei ddifrifoldeb mewn ffordd gynnil. Efallai y bydd achosion pan ddaw'r Pwyllgor i'r casgliad, yn sgil yr amgylchiadau penodol, y gallai sancsiwn llai fod yn ddigonol a'i fod yn briodol, gan gofio'r cydbwysedd pwysig rhwng budd y cyhoedd a buddiannau'r unigolyn.

Mae'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar benderfyniadau tebyg yn amrywio'n ddi-ben-draw, ond gallent gynnwys natur a chyfnod yr anonestrwydd, y ffaith ei fod yn ymddangos yn groes i gymeriad yr unigolyn mewn achos penodol,

p'un a oedd ar ffurf un weithred neu sawl achlysur neu gall fod tystiolaeth gymhellol iawn o grebwyll ac edifeirwch sy'n cyfiawnhau casgliad bod sancsiwn is yn briodol.

Diffyg crebwyll

Mae crebwyll yn ymwneud â'r risg o ailadrodd yn y dyfodol. I'r graddau hynny, dylid ei wahaniaethu oddi wrth edifeirwch am yr ymddygiad yn y gorffennol.

Mae'n debygol yr ystyrir bod ymarferydd yn brin o grebwyll os:

- ydynt yn gwrthod ymddiheuro neu dderbyn eu camgymeriadau
- nad ydynt yn cydnabod y dylent fod wedi ymddwyn yn wahanol
- ydynt yn addo cywiro, ond yn methu  cymryd camau priodol
- nad ydynt yn dangos eu bod yn datblygu crebwyll mewn modd amserol
- ydynt yn methu â dweud y gwir yn ystod y gwrandawiad
- ydynt yn methu  nodi a rhoi mesurau ar waith a fydd yn atal yr ymddygiad rhag digwydd eto
- nad ydynt yn dangos dealltwriaeth o effaith neu effaith bosibl eu gweithredoedd

Nid yw'r ffaith bod person cofrestredig yn gwadu unrhyw gamwedd yn golygu'n awtomatig nad oes ganddynt grebwyll.

Ni ddylid trin herio honiadau, hyd yn oed yn gadarn, fel tystiolaeth o ddiffyg crebwyll ynddo'i hun; rhaid dangos rhywbeth arall cyn y gellir ystyried yn briodol fod amddiffyniad a wrthodwyd yn ffactor gwaethygol.

Yn yr un modd, nid yw cyfaddef camymddygiad yn rhag-amod i sefydlu bod person cofrestredig yn deall difrifoldeb y weithred/gweithredoedd a brofwyd ac yn annhebygol o'i/o'u (h)ailadrodd.

Felly, mae'n bosibl dangos adferiad a chrebwyll heb dderbyn y camwedd gwreiddiol, er bod dealltwriaeth ac agwedd unigolyn at yr honiadau sylfaenol yn fater y gellir ei ystyried yn briodol wrth ystyried crebwyll.

Gellir dangos crebwyll mewn amryw ffyrdd, hyd yn oed pan fydd anghydfod ynghylch ymddygiad, er enghraifft trwy ddysgu, hyfforddiant, newid agwedd neu brofiad arall sydd wedi digwydd rhwng yr adeg y digwyddodd y camymddygiad a'r gwrandawiad, agwedd unigolyn at yr honiadau a ph'un a ydynt wedi derbyn cyfrifoldeb am eu hymddygiad ac wedi cymryd camau i sicrhau na chaiff ei ailadrodd.

Mae angen gofal arbennig pan fydd y person cofrestredig wedi gwadu cyhuddiadau profedig o anonestrwydd. Rhaid cydbwyso'r egwyddor y dylai personau cofrestredig sy'n wynebu honiad o anonestrwydd gael cyfle priodol i wrthsefyll honiadau difrifol iawn yn erbyn yr angen i ddiogelu budd y cyhoedd.

Er y gall amddiffyniad a wrthodwyd mewn perthynas â honiad o anonestrwydd gael ei ystyried yn briodol fel nodwedd waethygol, dylai Pwyllgorau ystyried y materion canlynol:

- Gellir ystyried bod rhai mathau o ymddygiad yn hanfodol anonest, fel twyll, tra gellir cyflawni ymddygiad arall yn onest neu'n anonest. Mae amddiffyniad o onestrwydd a wrthodwyd yn llai tebygol o gael ei ystyried yn ffactor gwaethygol mewn perthynas â'r ail gategori, lle mae anonestrwydd yn honiad eilaidd sy'n mynnu asesiad gwerthusol gan y Pwyllgor.

- Mae gwrthod cyfaddef ffeithiau gwrthrychol, profedig yn fwy tebygol o gael ei ystyried yn ffactor gwaethygol na bod person cofrestredig yn mynnu cyflwr meddwl gonest. Er enghraifft, person cofrestredig sy'n haeru eu bod wedi ymddwyn mewn ffordd benodol gyda chaniatâd eu rheolwr llinell, dan amgylchiadau pan ddaw'r Pwyllgor i'r casgliad na chynhaliwyd unrhyw sgwrs debyg. Mewn sefyllfa fel hyn, mae amddiffyniad gwrthodedig y person cofrestredig yn fwy tebygol o fod yn berthnasol i sancsiwn. Yn ***Towuaghantse v GMC* [2021] EWHC 681,** dyfarnodd y Llys *"os yw cofrestrai yn amddiffyn honiad o ffaith bendant sylfaenol trwy roi tystiolaeth anonest a thrwy geisio camarwain y [Tribiwnlys] yn fwriadol, yna byddai'r ymddygiad fforensig hwnnw'n sicr yn dweud rhywbeth am amhariad ac addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol"*.

- Natur yr amddiffyniad a wrthodwyd. Er enghraifft, nid yw methiant i gyfaddef honiad yn dynodi nad yw rhywun wedi dweud y gwir bob tro. I'r gwrthwyneb, gallai fod achlysuron pan gellir ystyried bod amddiffyniad yn anonest ynddo'i hun, er enghraifft pan fydd person cofrestredig wedi ymhlygu pobl eraill neu roi'r bai ar bobl eraill ar gam.

Gweler ***Sawati v GMC*** **[2022] EWHC 283 (Gwein):**

*"Yn fyr, cyn y gall Tribiwnlys fod yn sicr o wneud defnydd teg o amddiffyniad a wrthodwyd i waethygu sancsiynau a roddir ar feddyg, mae angen iddo atgoffa ei hun o fan cychwyn yr Arglwydd Hoffman bod gan feddygon hawl briodol a theg i amddiffyn eu hunain, ac efallai y bydd wedyn yn ei chael yn ddefnyddiol meddwl am bedwar peth, sef: (i) i ba raddau roedd cyflwr meddwl neu anonestrwydd yn honiad sylfaenol yn hytrach nag yn honiad eilaidd i ddechrau (gan nodi peryglon maglau cyhuddo) – neu ddim yn honiad o gwbl, (ii) beth, os o gwbl, roedd y meddyg yn ei wadu'n gadarnhaol heblaw am eu hanonestrwydd neu gyflwr gwybodaeth eu hunain, (iii) i ba raddau y mae 'diffyg crebwyll' yn cael ei dystiolaethu gan unrhyw beth heblaw'r amddiffyniad a wrthodwyd a (iv) natur ac ansawdd yr amddiffyniad, gan nodi'r glir mewn unrhyw gyswllt yr oedd ynddo'i hun yn dwyll, yn gelwydd neu'n wrth-honiad o anonestrwydd pobl eraill.*

*... Mae angen iddynt feddwl am yr hyn maent yn ei wneud cyn defnyddio amddiffyniad meddyg yn eu herbyn, i ddod â'r dadansoddiad yn ôl i'w hanfod symlaf".*

Camymddygiad rhywiol

Bydd y camymddygiad yn arbennig o ddifrifol pan oedd cymhelliant rhywiol i'r gweithredoedd a ganfuwyd neu pan oeddent o natur rywiol a/neu pan cawsant eu defnyddio i egsbloetio ymddiriaeth, gwybodaeth neu ddylanwad a geir o sefyllfa'r ymarferydd yn y proffesiynau addysg.

Bydd lefel y risg i ddysgwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd yn ystyriaeth hollbwysig i Bwyllgorau, ond dylent hefyd ystyried, yn gyffredinol, y bydd camymddygiad rhywiol yn debygol o danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y proffesiynau yn ddifrifol.

Yn aml, daw Pwyllgorau i'r casgliad, mewn achosion o gamymddygiad rhywiol profedig, mai Gorchymyn Gwahardd yw'r unig sancsiwn cymesur. Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu rhoi sancsiwn llai difrifol, bydd angen iddo wneud yn siŵr ei fod yn esbonio'i resymau'n ofalus ac yn glir er mwyn caniatáu i bobl nad ydynt wedi clywed yr holl dystiolaeth yn yr achos, gan gynnwys y dioddefwyr, ddeall y penderfyniad yn iawn.